# Cyngor Cymuned Tudweiliog
## Tudweiliog Community Council

Heulwen Williams
Clerc/clerk
01758 770415

Pen Cefn,
Dinas,
Pwllheli.
LL53 8UB.

Cofnodion Cyngor Cymuned Tudweiliog 12ed Chwefror2024
Festri Capel Garnfadryn

Presennol: Terry Huws, Dafydd Williams, Sian Parri, Chris Brady, Henry Hughes, John Davies, Alun Williams, Catrin Williams, Alan Hughes, Cynghorydd Gareth Tudur Jones

Ymddiheuriadau: Sioned Pearson, Deio Williams, Gareth Jones

1. Cadeiriwyd gan Henry Hughes ac estynnodd groeso i bawb.

2. Derbynwyd y cofnodion diwethaf fel rhai cywir.

3. Materion yn codi o'r cofnodion:
    a. **Y Gronfa Datblygu Cynaliadwy (Hysbysfwrdd) –** Bydd Chris yn anfon amcanbris i'r Clerc yn fuan.
    b. **Mynwent Newydd Tudweiliog** – Derbynwyd adroddiad gan y cwmni 'e-geo Solution Ltd' oedd yn datgan fod cam cyntaf yr archwyliad wedi ei gwblhau ac nad oedd problem wedi ymdangos yn yr archwyliad. Bydd y Clerc rwan yn cyflwyno 'cyngor cyn cais' i'r adran Cynllunio.
    c. **Traffic a'r lon yr ysgol –** Bu swyddogion Cyngor Gwynedd ar y safle yn gosod mesurydd cyflymder a daeth canlyniadau i law yn datgan nad oes problem. Bu i'r mesurydd gael ei osod yn rhy agos i fynedfa'r maes parcio – bydd y Clerc yn cysylltu a'r adran eto gan ofyn iddynt ail osod y mesurydd a hynny yn agosach i fynedfa'r Lion cyn i'r cerbydau ddechrau arafu i droi fewn i'r maes parcio.
    d. **Tyllau yn y lon ger Bryn Awel, Garfadryn –** Mae'r tyllau bellach Wedi eu trwsio.

dd. **Pont Droed ger Felin Tudweiliog –** Mae'r bont wedi ei thrwsio dros dro, pan fydd cyllid bydd y pont yn cael ei adnewyddu.

e. **Lon Porth Colmon –** Derbynwyd cadarnhad fod y tyllau wedi cael sylw, hefyd fod y ffordd ar restr o ffyrdd iw ailwynebu.

f. **Lon Porthysgaden-** Derbynwyd cadarnhad fod y gwaith wedi ei basio i'r uned waith ac y caiff sylw fel mae'r adnoddau yn caniatau.

4. Gohebiaeth:

   a. **Cais Cynllunio C24/0046/46/DT Ty'r Ysgol, Llangwnnadl** – Gwrthod – gor ddatblygiad ac ddim yn gweddu a chymeriad yr ardal.

   b. **Diweddaraid o'r prosiect Perthyn –**
   Erhyn mae Cynghorau Cymuned eraill hefyd wedi dynodi neu wedi datgan cefnogaeth.
   Wedi dynodi mae - Cyngor Tref Nefyn, Cynghorau Cymuned Buan, Llanbedrog a Llanystumdwy
   Wedi cefnogi mae – Cyngor Llanaelhaearn, Cylch yr Iaith, Dyfodol i'r Iaith,
   Mae gwaith ymchwil ar y gweill i edrych yn fanwl ar sefyllfa'r iaith yn Llangwnnadl.

   c. **Cyflog y Clerc –** Cafwyd caniatad i'w dalu.

5. Unrhyw Fater Arall:-

   a. Gofynwyd i'r clerc geisio cael diweddariad gan yr adran Gorfodaeth o'r hyn sydd wedi ac am ddigwydd i'r garafan sydd yn ardal Llangwnnadl gyda rhywun yn byw ynddi'n barhaol ond heb ganiatad cynllunio..
   b. Cyflwynwyd pryder fod dwr yn croni eto mewn sawl ddarn o lonydd yr ardal – ger tro Beudu Bigyn, ar lon rhwng Tudweiliog ac Edern – bydd y Clerc yn cysylltu a'r adran Priffyrdd gan ofyn iddynt weithredu i ddatrus y broblem.
   c. Cafodd y Cynghorydd Gareth Jones ychydig funudau i'n hatgoffa ei fod yno i helpu'r cymuned mewn unrhyw ffordd sy'n bosib ac y gallai'r Cyngor Cymuned alw arno unrhyw adeg. Bydd yn mynychu'r cyfarfod eto mewn tipyn o fisoedd.

6. Rhannu'r Praesept

   Cyn penderfynu ar faint i'w gyfranu i pob cais, penderfynwyd gofyn am Faentolen, gan pob ymgeisydd.

Cynhelir y cyfarfod nesaf Nos Lun Mawrth 11eg 2024 am 7.30yh
Festri Capel Tudweiliog.